# Addysg Ôl-16 Arfon



Mae dy farn yn cyfri!

Ar gyfer canfod y dyfodol gorau i ti a dy ffrindiau, rydym yn awyddus i dderbyn dy farn am addysg ôl-16 yn ardal Arfon, gan nodi beth yw dy syniadau a beth yw dy fwriad mewn ychydig flynyddoedd.

Ar y dudalen nesaf rydym yn manylu ychydig ar pam rydym eisiau clywed dy farn a'th syniadau.


A gyda'r ychydig eiriau yna, diolch am gymryd y cyfle i gyfrannu at y sgwrs fawr fydd yn helpu ni sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob person ifanc fel ti i lwyddo a gwireddu eu potensial i'r dyfodol.

ol16@gwynedd.llyw.cymru www.gwynedd.llyw.cymru/ol16arfon 01286 679 640

# Addysg Ôl-16 Arfon

## Y ddarpariaeth bresennol

Mae'r ddarpariaeth addysg ôl-16 sy'n weithredol yn Arfon ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu mewn chwe ysgol uwchradd yn Arfon, ac yn y coleg gan Grŵp Llandrillo Menai, sef:




- Ysgol Brynrefail,
- Ysgol Dyffryn Nantlle,
- Ysgol Dyffryn Ogwen,
- Ysgol Friars,
- Colegau Grŵp Llandrillo Menai

Mae ysgolion uwchradd Arfon mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol Gwynedd, ysgolion uwchradd Môn ac Awdurdod Lleol Môn a Grŵp Llandrillo Menai yn ffurfio Consortiwm (Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn) sy'n gosod cwricwlwm ôl-16 yr ardal drwy drefniant partneriaethol. Mae hyn, ymysg pethau eraill yn galluogi'r ysgolion i gynnig dewis o 30 o gyrsiau i ddysgwyr.

# Addysg Ôl-16 Arfon

## Pam ein bod yn edrych ar ddarpariaeth ôl-16 Arfon?

Does dim newid sylweddol wedi bod ym mhatrwm addysg ôl-16 yn ardal Arfon ers peth amser. Gyda thirlun addysg ôl-16 yn newid ar draws Cymru, mae'n amserol felly i ni gymryd cam yn ôl er mwyn gweld os ydi'r sefyllfa bresennol yn cyfarch anghenion ein pobl ifanc yn llawn.

Trwy gynnal sgwrs agored rydym yn awyddus i weld pa agweddau o'r drefn bresennol sy'n gweithio'n dda a beth allwn ni ei wneud yn well i sicrhau cyfundrefn arloesol sy'n cynnig y gorau i bob dysgwr.

Yn fwy na dim, rydym am ganfod ateb i'r cwestiwn 'Beth sydd angen ei wneud i sicrhau fod y drefn yma yn Arfon yn galluogi pob un o'n dysgwyr i gyflawni eu potensial?'.

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bryd felly i edrych o'r newydd ar y cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon, yn arbennig er mwyn rhoi sylw i:

- Sicrhau bod y cyfleoedd a'r profiadau yr un fath i bob dysgwr. Ar hyn o bryd mae gormod o amrywiaeth yn y cyrsiau a'r canlyniadau ar draws y sir.
- Cynyddu maint dosbarthiadau. Mae grwpiau dysgu bach mewn nifer o bynciau a diffyg disgyblion i gyfoethogi'r profiad yn y gwersi.
- Sicrhau bod dewis o 30 o gyrsiau ar gael.
- Sicrhau system addysg ôl-16 sydd yn cyflawni gwerth am arian, gan gynnig cyfle cyfartal i bob dysgwr.
- Sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y dewis o gyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Cyfle i ddenu buddsoddiad o hyd at £18m trwy Raglen Ysgolion a Cholegau 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon.